Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

# Gradd-brentisiaethau yng Nghymru: dyraniadau cyllid ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 25 Mehefin 2026 |
| **Cyfeirnod:** | Medr/2026/28 |
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg uwch<br>Prifathrawon sefydliadau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant annibynnol |
| **Ymateb erbyn:** | Nid oes angen ymateb |
| **Rhagor o wybodaeth:** | Simon Phelps a/neu Kelly Hillard \| prentisiaethau@medr.cymru |


**Crynodeb:**

Mae'r cyhoeddiad hwn yn nodi dyraniadau cyllid Medr i sefydliadau addysg uwch ar gyfer gradd-brentisiaethau ym mlwyddyn academaidd 2026/27. Mae'r ddogfen yn rhoi arweiniad ar ofynion y cyllid a'r ffordd y caiff ei weinyddu.



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cyflwyniad

1. Mae'r cyhoeddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am fuddsoddiad mewn gradd-brentisiaethau ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27, gan gynnwys y ffordd y caiff y cyfanswm cyllid o £10.111m ei ddyrannu i sefydliadau addysg uwch, ac mae'n nodi'r meini prawf y bydd angen i sefydliadau addysg uwch a phrentisiaid eu bodloni er mwyn bod yn gymwys i gael cyllid. Caiff llythyrau cyllido eu hanfon ar wahân cyn bo hir i sefydliadau sy'n cael cyllid.

2. Caiff cyllid Medr ar gyfer gradd-brentisiaethau ei roi i sefydliadau addysg uwch ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â chynnal y cyrsiau hyn. Caiff unrhyw gyllid cymorth i fyfyrwyr unigol y gall gradd-brentisiaid fod yn gymwys i'w gael ei weinyddu gan Lywodraeth Cymru drwy'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.

3. Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau wedi cael cyllid ychwanegol ar gyfer dechreuwyr newydd, sy'n bosibl oherwydd y cynnydd yn y gyllideb ar gyfer gradd-brentisiaethau ym mlwyddyn academaidd 2026/27. Fodd bynnag, dylid nodi ei bod yn ymddangos bod rhai sefydliadau wedi cael cyfanswm dyraniad cyllid llai o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Y rheswm dros hyn yw bod ganddynt lai o ddysgwyr sy'n parhau ym mlwyddyn academaidd 2026/27.

4. Anogir darparwyr i hysbysebu'r cyfleoedd sydd ar gael i gyflogwyr, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill er mwyn sicrhau y gall cynifer â phosibl o brentisiaid gael budd o raglen gradd-brentisiaeth gymwys a chofrestru arni.

## Dull cyllido

5. Mae Medr wedi pennu blaenoriaethau strategol ar gyfer buddsoddi ym mlwyddyn academaidd 2026/27 sy'n ystyried data o'r sector sy'n dangos ble y gellid gwella deilliannau a gwneud y defnydd gorau o'r gyllideb sydd ar gael.

6. Mae'r blaenoriaethau cyllido ar gyfer gradd-brentisiaethau ym mlwyddyn academaidd 2026/27 fel a ganlyn:

   - prentisiaethau sy'n parhau;
   - dechreuwyr newydd, yn enwedig y rhai hynny sydd rhwng 18 a 24 oed (yn unol â'r Warant i Bobl Ifanc);
   - uwchsgilio cyflogeion presennol;
   - prentisiaid â nodweddion gwarchodedig;
   - darpariaeth Gymraeg;
   - llwybr gradd adeiladu newydd – Technolegydd Pensaernïol.

7. Mae'r trefniadau cyllido fel a ganlyn:

   - Dyrennir cyllid yn seiliedig ar nifer disgwyliedig y prentisiaethau a fydd yn parhau a'r rhai newydd a fydd yn dechrau yn ystod 2026/27;
   - Bydd y cyllid yn cwmpasu fframweithiau gradd-brentisiaeth ym meysydd adeiladu, digidol, peirianneg a gweithgynhyrchu uwch;
   - Mae'r gwerth credyd wedi cael ei gyfrifo gan ddefnyddio cyfanswm o £27,000 ar gyfer cwrs â gwerth credyd nodweddiadol o 360, h.y. £75 fesul gwerth

credyd. Felly, bydd prentis y disgwylir iddo astudio 120 o gredydau y flwyddyn ar gwrs tair blynedd yn denu £9,000 o gyllid y flwyddyn.

8. Ni ellir hawlio cyllid am gredyd a ddyfernir drwy gydnabod dysgu blaenorol a/neu gostau cysylltiedig y broses hon.

## Cyllid yn ystod blwyddyn academaidd 2026/27

9. Caiff Medr ei gyllideb gan Lywodraeth Cymru fesul blwyddyn ariannol. Wedyn, caiff y gyllideb ei throsi'n ddyraniadau ar gyfer blwyddyn academaidd sy'n tybio y bydd y gyllideb yn parhau i fod ar gael y flwyddyn ariannol ganlynol. Caiff dyraniadau i ddarparwyr eu gwneud fesul blwyddyn academaidd.[1]

10. Y gyllideb ar gyfer gradd-brentisiaethau ym mlwyddyn ariannol 2026-27 yw £10.111m, a'r swm sydd ar gael i'w ddyrannu i sefydliadau ym mlwyddyn academaidd 2026/27 yw £10.111m. Fodd bynnag, didynnir £180,183 o'r dyraniad hwn ar gyfer taliad wedi'i addasu i sefydliadau addysg uwch yn seiliedig ar eu ffurflenni data HESA wedi'u gwirio ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25. Felly, cyfanswm y dyraniad ar gyfer cynnal gradd-brentisiaethau ym mlwyddyn 2026/27 yw £9,930,967.

11. Mae dyraniadau sefydliadau yn ystyried cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n parhau ym mlwyddyn academaidd 2026/27. Cytunwyd ar y dull o ddyrannu cyllid ar gyfer dechreuwyr newydd yn ystod 2026/27 gyda darparwyr gradd-brentisiaethau o'r blaen, ac mae'n seiliedig ar weithgarwch yn ystod blwyddyn academaidd 2025/26 a'r ffurflen ddata Ystadegau Cynnar Myfyrwyr Addysg Uwch (HESES) a gyflwynwyd gan sefydliadau addysg uwch ym mis Chwefror 2026.

## Methodoleg dyrannu

12. Mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gapio'r cyllidebau yn unol â'r cyllid sydd ar gael yn seiliedig ar nifer o gamau:

   a) Mae nifer y myfyrwyr sy'n parhau ar fframweithiau yn ystod blwyddyn academaidd 2026/27 yn seiliedig ar niferoedd a gyflwynwyd gan bob sefydliad ac mae'r cyllid yn seiliedig ar y gyfradd gyllido yn unol â hyd disgwyliedig y cwrs. Daw'r cyfanswm cyllid hwn sy'n ofynnol ar y sector ar gyfer myfyrwyr sy'n parhau o gyfanswm y gyllideb sydd ar gael ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27.
   b) Caiff cyllid blwyddyn academaidd 2026/27 ar gyfer dechreuwyr newydd ar fframweithiau gradd-brentisiaeth ei ddosbarthu ar sail y dull a gafodd y mwyaf o gefnogaeth yn ein hymgynghoriad anffurfiol â sefydliadau yn 2024/25.

13. Mae'r dyraniad cyllid yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

   - Cyllido dysgwyr sy'n parhau yn unol â'r nifer a gyflwynwyd gan bob sefydliad;
   - Dyrannu cyllid ar gyfer o leiaf bum dechreuwr newydd, yn seiliedig ar £9,000 fesul prentis, i bob sefydliad;

---

[1] Defnyddiwn y fformat 2026-27 i gyfeirio at y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2027, a'r fformat 2026/27 i gyfeirio at y flwyddyn academaidd hyd at 31 Gorffennaf 2027.

- Dyrannu cyllid ar gyfer dechreuwyr newydd ychwanegol yn gymesur â nifer y dechreuwyr newydd yn 2025/26 a data gwariant cyffredinol y sefydliad addysg uwch ym mis Ionawr 2026, o gymharu â'i gyllideb wreiddiol a oedd yn seiliedig ar y ffurflen HESES.

14. Yr uchafswm y gellir ei ddyrannu er mwyn bodloni gofynion pob prentisiaeth yw £27,000. Mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi dyrannu cyllideb o £9,000 y flwyddyn fesul prentis, yn seiliedig ar y dybiaeth mai tair blynedd fydd hyd rhaglen. Mae uchafswm y gyllideb a ddyrennir ar gyfer gradd-brentisiaethau newydd a'r rhai sy'n parhau yn seiliedig ar yr hyd cwrs byrraf, ond, pan fydd hyd y cwrs yn hwy, caiff y cyllid ei dalu ar sail nifer gwirioneddol y credydau a gwblheir.

15. Mae cyllideb uchaf gyfunol ar gyfer prentisiaethau newydd a'r rhai sy'n parhau ym mlwyddyn academaidd 2026/27 wedi cael ei dyrannu, fel y bydd modd rheoli'r rhaglen gradd-brentisiaethau yn hyblyg o fewn sefydliadau a rhwng fframweithiau a chymwysterau er mwyn bodloni'r galw gan gyflogwyr.

## Dyraniadau cyllid 2026/27

16. Cyfanswm y cyllid sydd ar gael i'w ddyrannu yw £10.111m llai £180,183 (addasiadau i gyllid o flwyddyn academaidd 2024/25 i'w dalu i sefydliadau addysg uwch ym mlwyddyn ariannol 2026-27 yn seiliedig ar ddata wedi'u gwirio).

| Darparwr | Cyfanswm y cyllid (£) |
|---|---:|
| Prifysgol Bangor | 911,939 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 1,037,938 |
| Prifysgol Caerdydd | 243,460 |
| Y Brifysgol Agored | 182,750 |
| Prifysgol Abertawe | 1,194,842 |
| Prifysgol De Cymru | 2,114,570 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 2,599,512 |
| Prifysgol Wrecsam | 1,645,956 |
| **Cyfanswm** | **9,930,967** |

## Talu grant

17. Dylai sefydliadau addysg uwch ddisgwyl cael dau daliad ar gyfer gradd-brentisiaethau yn ystod blwyddyn academaidd 2026/27. Caiff 60% o gyfanswm dyraniad cyllid sefydliad ei dalu ym mis Hydref 2026 a chaiff y 40% sy'n weddill ei dalu ym mis Mawrth 2027. Caiff addasiadau i'r ail daliad eu cyfrifo fel yr amlinellir ym mharagraffau 22-25.

18. Os bydd newidiadau i'r gyllideb neu gyfyngiadau rheoli arian parod (e.e. terfyn Medr ar gario ymlaen o un flwyddyn ariannol i'r llall), mae'n bosibl y bydd angen addasu

proffil yn ystod y flwyddyn. Rhoddir gwybod yn ysgrifenedig ymlaen llaw os bydd hyn yn digwydd.

### Gofynion Gradd-Brentisiaethau

19. Er mwyn bod yn gymwys i gael cyllid, rhaid i brentis fod wedi'i gofrestru ar fframwaith prentisiaeth cymeradwy a rhaid i'r ddarpariaeth gydymffurfio â'r gofynion canlynol:

- Bydd prentisiaid yn treulio 51% neu fwy o'u hamser yn gweithio yng Nghymru;
- Rhaid i gytundeb prentisiaeth fod ar waith ac wedi'i lofnodi gan y dysgwr, y cyflogwr a'r darparwr;
- Cynhelir asesiad cychwynnol gyda'r prentis er mwyn sicrhau y caiff profiad a dysgu blaenorol eu cydnabod, lle bo hynny'n briodol, ac y caiff gofynion cymorth dysgu ychwanegol eu hadnabod a'u cefnogi; gall prentisiaid feddu ar gymwysterau ar lefel gyfatebol sy'n eu galluogi i ddilyn y fframwaith ac a allai fod y tu allan i'r sector a ddewiswyd;
- Caiff prentisiaid eu cefnogi yn y gweithle ag o leiaf 20% o ddysgu i ffwrdd o'r gwaith neu chwe awr o hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith bob wythnos ar gyfer unigolyn cyfwerth ag amser llawn (unigolyn sy'n gweithio 30 awr neu fwy) a/neu'r hyn sy'n cyfateb i oriau dan arweiniad tybiannol ar gyfer y credydau a gaiff eu hastudio;
- Bydd prentisiaid yn ymgymryd â dysgu seiliedig ar waith yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith;
- Caiff cynnydd prentisiaid ei adolygu'n aml mewn proses a fydd yn cynnwys y sefydliad a/neu'r darparwr a ariennir gan Medr, y prentis a'r cyflogwr;
- Bydd prentisiaid yn gallu manteisio ar yr ystod lawn o wasanaethau myfyrwyr a gynigir gan y darparwr, a'i undeb myfyrwyr;
- Cyflwynir data fel y bo'n ofynnol gan Medr;
- Gall prentis ymadael â'r cymhwyster ag achrediad neu ardystiad o'r hyn a ddysgwyd. Ni fydd hyn yn gyfystyr â chwblhau prentisiaeth lawn yn llwyddiannus.

20. Bydd bodloni'r gofynion ar gyfer gradd-brentisiaethau a chyflawni'r blaenoriaethau cyllido yn rhoi sicrwydd i Medr bod cysondeb agos â'r rhaglen brentisiaethau ehangach yng Nghymru a bod y gofynion deddfwriaethol perthnasol yn cael eu bodloni. Mae Medr yn disgwyl i sefydliadau a ariennir ddogfennu tystiolaeth eu bod yn bodloni'r gofynion ac mae'n cadw'r hawl i archwilio'r wybodaeth honno.

### Newid mewn amgylchiadau

21. Os bydd newid mewn amgylchiadau, mae'n bosibl na fydd prentis yn gymwys i ddilyn y brentisiaeth neu i gael cyllid gan Medr yn ystod cyfnod astudio mwyach. Mewn achos o'r fath, bydd yn rhaid i'r darparwr roi gwybod i Medr er mwyn iddo ystyried parhad y cyllid prentisiaeth.

## Monitro ac adhawlio cyllid

22. Caiff y cyllid a ddyfernir ar gyfer 2026/27 ei fonitro gan ddefnyddio data recriwtio arolwg Ystadegau Cynnar Myfyrwyr Addysg Uwch (HESES) 2026/27 a gesglir ar gyfer dechreuwyr newydd hyd at 1 Mawrth 2027 a dysgwyr sy'n parhau o flynyddoedd blaenorol. Caiff data HESES 2026/27 eu casglu a'u gwirio ym mis Chwefror 2027.

23. Bydd y cyllid yn seiliedig ar nifer y gwerthoedd credyd wedi'u cwblhau a gyflwynir. Gallai'r cyllid gael ei addasu tuag i lawr os bydd modiwlau heb eu cwblhau, os bydd myfyrwyr wedi tynnu'n ôl neu os bydd nifer y credydau ar gyfer y cwrs cyfan yn llai na 360 o gredydau yn sgil cydnabod dysgu blaenorol.

24. Bydd Tîm Prentisiaethau Medr yn cysylltu â sefydliadau ym mis Hydref a mis Rhagfyr 2026 i gadarnhau eu gwariant hyd yma a nodi unrhyw danwariant a ragwelir ar gyfer dychwelyd ac ailddosbarthu.

25. Caiff addasiadau cyllid eu cyfrifo tua diwedd y flwyddyn ariannol gan ddefnyddio data HESES, y bydd sefydliadau'n eu gwirio fel rhan o'r broses casglu data ar gyfer gradd-brentisiaethau. Gellir cael rhagor o wybodaeth gan Hannah Falvey, YstadegauAU@medr.cymru.

## Amodau grant

26. Mae’r cyllid a ddyrennir gan Medr ar gael yn ddarostyngedig i'r amodau cyffredinol ar gyfer cyllid a delir gan Medr i Gorff Llywodraethu sefydliad. Nodir y rhain yn Nhelerau ac Amodau Cyllid Medr 2026/27.

## Hyrwyddo gradd-brentisiaethau

27. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr hyrwyddo cyfleoedd am radd-brentisiaethau i amrywiaeth o ddysgwyr, yn enwedig dysgwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg drydyddol ac yn y gweithlu yng Nghymru yn y sectorau perthnasol.

28. Disgwylir i ddarparwyr gradd-brentisiaethau gymryd rhan yn y canlynol:

- Gweithgareddau marchnata ac ymgyrchoedd cenedlaethol Medr a Llywodraeth Cymru;
- Cystadlaethau sgiliau fel World Skills. Mae'r cystadlaethau hyn yn cynnig profiadau a heriau ychwanegol i brentisiaid a fydd yn fuddiol iddynt yn eu gyrfaoedd. Maent hefyd yn cynnig cyfleoedd i ddangos cryfder sector addysg drydyddol Cymru drwy gystadlaethau cenedlaethol a rhyngwladol. Gellir cael rhagor o wybodaeth yn Frequently asked questions – WorldSkills UK.

## Asesu effaith ein polisïau

29. Byddwn yn cynnal prawf sgrinio asesiadau effaith er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb. Hefyd, rydym wedi ystyried effaith polisïau

ar y Gymraeg a darpariaeth Gymraeg yn y sector addysg uwch yng Nghymru, a'r effeithiau posibl ar y gallu i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Cysylltwch ag em.cynhwysiant@medr.cymru i gael rhagor o wybodaeth am asesiadau effaith. Darparwyr sy'n gyfrifol am adolygu eu hasesiadau effaith eu hunain mewn perthynas â gradd-brentisiaethau.

**Rhagor o wybodaeth**

30. Os bydd gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Simon Phelps (simon.phelps@medr.cymru) a/neu Kelly Hillard (kelly.hillard@medr.cymru).

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government